# 10 Rheswm Da

## dros fod yn wyddonydd neu'n beiriannydd

## 1 Datblygu'r rhain i gyd...

- **Coesau/breichiau artiffisial** i bobl sydd wedi'u hanfu a **meddyginiaeth** ar gyfer clefydau fel Ebola
- **Consolau gemau 3D** a **gliniaduron sy'n defnyddio ynni solar**
- **Colur sy'n gweddu i bob lliw croen**
- Systemau i **leihau'r risg o lifogydd**
- **Cerbydau di-yrrwr** a **llongau gofod** ar gyfer twristiaid y dyfodol
- **Defnyddiau deallus** gyda thechnoleg ddigidol yn rhan ohonynt
- **Archgyfrifiaduron** sy'n rhagweld effeithiau newid hinsawdd...

...a mwy



## 2 Gweithio yn eich hoff ddiwydiant

O **fwyd**, **meddyginiaeth** ac **ynni adnewyddadwy** i **chwaraeon**, **ffilm** a **cherddoriaeth** – mae angen gwyddonwyr a pheirianwyr ym mhob man



## 3 Ennill arian da

Ar gyfartaledd, mae prentisiaid peirianneg yn **ennill dwywaith yn fwy** na'r isafswm cyflog cenedlaethol ar gyfer prentisiaid.



Isafswm cyflog cenedlaethol | Isafswm cyflog prentis

Mae cyflog cychwynnol cyfartalog pobl â graddau **peirianneg a thechnoleg 20% yn uwch** nag ar gyfer graddedigion yn gyffredinol.

## 4 Gwneud gwahaniaeth

Helpu i fynd i'r afael â rhai o brif heriau'r byd, fel **ymateb i drychinebau naturiol, gwella seiberddiogelwch a datblygu ffynonellau ynni glân.**



## 5 Galw mawr

Mae'r DU angen **2 filiwn** a mwy o **wyddonwyr**, **peirianwyr** a **thechnegwyr** newydd erbyn 2022.

## 6 Gallu dewis eich llwybr

Coleg, prentisiaeth, gradd prifysgol neu gyfuniad o'r tri.




## 7 Eich dewis o yrfa yn y dyfodol

**Manteisio ar ynni llanw, dylunio robot, canfod gwellhad i ganser… neu wneud swydd sydd ddim eto'n bodoli hyd yn oed!**

Mae parhau i astudio mathemateg a gwyddoniaeth – yn enwedig ffiseg – yn cadw'ch opsiynau ar agor cyhyd â phosibl ar gyfer swyddi mewn **gwyddoniaeth, peirianneg, technoleg, y gyfraith, busnes, gofod, pensaernïaeth** a llawer mwy.

## 8 Teithio'r byd

**Gweithio mewn timau dynamig** gyda phobl o wahanol gefndiroedd, ar draws y byd.



## 9 Ennill parch

**Cael eich cofio am eich gwaith ac ennill eich lle mewn hanes am ddylunio strwythurau anhygoel**, gwneud **datblygiadau** gwefreiddiol **mewn technoleg, darganfod planedau neu nodi codau genetig hollbwysig.**

## 10 Dylunio, creu ac arloesi

Gall pynciau fel dylunio a thechnoleg, celf a chyfrifiadura helpu i baratoi'r ffordd i yrfaoedd sy'n **chwyldroi'r ffordd rydyn ni'n byw.**



Cymerwch ran yn ein cwis byr i ganfod eich criw a chael ysbrydoliaeth am yrfaoedd:
**thebigbangfair.co.uk/whosecrewareyou**



I wybod mwy am yrfaoedd mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg, ewch i:
**thebigbangfair.co.uk/careers**

peirianneg: **tomorrowsengineers.org.uk**
bioleg: **rsb.org.uk/make-a-difference**
cemeg: **rsc.org/careers/future**
ffiseg: **physics.org/careers**
mathemateg: **mathscareers.org.uk**

The Big Bang
UK Young Scientists & Engineers Fair

Tomorrow's Engineers